

Rhifolion ac Enwau

Yn wahanol i'r Saesneg, mae enw **unigol** yn cael ei ddefnyddio ar ôl rhifolyn bob amser yn y Gymraeg, e.e.

two boys	>	dau <i>fachgen</i>
two courses	>	dau <i>gwrs</i>
three offers	>	tri <i>chynnig</i>
four cars	>	pedwar <i>car</i>

Pan mae rhifolyn yn cael ei ddefnyddio gydag enw **lluosog** yn y Gymraeg, mae angen y fformiwla isod:

rhifolyn + 'o' + enw lluosog

e.e. pump **o** fechgyn*
chwech **o** systemau
deg **o** blant*

* Peidiwch ag anghofio treiglo'n feddal ar ôl 'o':

naw **o** beiriannau
pedwar **o** lwyfannau

un, dau, tri, pedwar....

Er mwyn defnyddio'r pedwar rhifolyn cyntaf (1, 2, 3 a 4) yn gywir, mae'n rhaid gwybod cenedl yr enw sy'n dilyn.

Pan fo'r enw yn **wrywaidd** dilynwch y patrwm hwn:

un	>	dim treiglad	un cwrs
dau	>	treiglad meddal	dau <u>g</u> wrs
tri	>	treiglad llaes	tri <u>ch</u> wrs
pedwar	>	dim treiglad	pedwar cwrs

Pan fo'r enw yn **fenywaidd** dilynwch y patrwm hwn:

un	>	treiglad meddal	un bennod
dwy	>	treiglad meddal	dwy <u>b</u> ennod
tair	>	dim treiglad	tair pennod
pedair	>	dim treiglad	pedair pennod

Nid yw enwau benywaidd sy'n dechrau ag 'll' a 'rh' yn treiglo ar ôl un, e.e.
e.e. un llaw un rhestr

pump, chwech....

Wrth ddefnyddio 5 o flaen enw unigol, pum (ac nid pump) yw'r ffurf gywir,
e.e. pum rheswm pum ystafell

Sylwch ar yr eithriad!

Pump oed ac **nid** pum oed sy'n gywir.

Wrth ddefnyddio 6 o flaen enw unigol, chwe (ac nid chwech) yw'r ffurf gywir,
e.e. chwe swydd chwe drws

Sylwch!

Chwech oed ac **nid** chwe oed sy'n gywir.

Ceir treigladau llaes ar ôl chwe,
e.e. chwe thraethawd chwe chwrs chwe pholyn

Y Fannod a Rhifolion

Nid yw'r rhifolion – hyd yn oed y rhai benywaidd – yn treiglo **ar ôl y fannod**,
e.e. y pedwar bys y tri myfyriwr
y pedair derwen y tair neuadd

Sylwch!

Yr eithriadau yw dau a dwy.

Maent yn treiglo'n feddal **bob tro**! Cofiwch hefyd fod dau a dwy hefyd yn achosi treigladau meddal yn yr enw sy'n dilyn,

e.e.
y ddau ddarlithydd y ddwy gath
y ddwy gerddorfa y ddau lywydd

Dilyniir yr un rheolau pan fo dau a dwy yn rhan o rif cyfansawdd,
e.e. y ddau ddyn ar bymtheg
y ddwy wythnos ar hugain